**EITEM AR YR AGENDA: 11**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**21 Medi 2015**

**ALLDRO AMCANOL 2015-2016**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## Diben yr Adroddiad

1 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi i'r Aelodau, alldro amcanol wedi'i amcangyfrif ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-2016.

## Cyflwyniad

2 Mae'r gwariant o'i gymharu â'r gyllideb yn cael ei fonitro'n agos gan staff y Gwasanaeth Tân ac Achub, a thynnir sylw at unrhyw amrywiadau neu amrywiadau disgwyliedig cyn gynted ag y bônt yn digwydd, a hynny er mwyn gallu gosod mesurau yn eu lle i sicrhau nad oes unrhyw risg ariannol i'r Awdurdod. Yr arwyddion cyfredol yw y bydd £25,125 o danwariant. Mae'r dadansoddiad manwl yn Atodiad A, a dangosir unrhyw dan-wariannau gydag arwydd minws (-).

3 Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r gwariant gwirioneddol hyd at ddiwedd Awst, ac yn amcangyfrif y gwariant am 7 mis olaf y flwyddyn.

## Amrywiadau i'r Gyllideb

### Costau Gweithwyr

4 Mae cyfran fawr o wariant y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymwneud â chyflogau, ac mae arwyddion y bydd tanwariant net ar gyflogau eleni.

5 Mae'r rhan fwyaf o'r tanwariant ar gyflogau'n ymwneud â diffoddwyr tân y system RDS, sef £317k. Mae sefyllfa'r alldro yn seiliedig ar nifer gyfredol y gweithwyr gan dalu sylw i'r tueddiadau mewn lwfansau a throsiant ar sail profiad y flwyddyn flaenorol a lefel y gweithgarwch hyd yn hyn.

6 Mae swyddi'r diffoddwyr WDS gwledig ar gontract i weithio o leiaf 21 awr yr wythnos, gyda'r disgwyl yn wreiddiol y byddent yn gweithio 30 awr yr wythnos ar gyfartaledd. Ond bu gofyniad cynyddol ar y diffoddwyr tân WDS gwledig i ddarparu gofal ar orsafoedd amser cyflawn; dros dro yw'r swyddi gweigion hyn ac maent oherwydd ymddeoliadau a chyfnod mamolaeth. Er mwyn darparu'r gofal hwn mae'r diffoddwyr tân WDS gwledig wedi bod yn gweithio hyd at 42 awr yr wythnos. Mae hyn wedi arwain at orwariant o'i gymharu â'r gyllideb wreiddiol.

7 Mae cyllideb y diffoddwyr tân amser cyflawn yn dangos tanwariant o £36k o'i gymharu â'r gyllideb wreiddiol. Mae sefyllfa'r alldro yn darparu ar gyfer 33 o swyddi diffoddwyr tân yn ychwanegol, a rhagwelir y bydd hyn yn dod yn rhan o'r llu o 1 Ionawr 2016 ymlaen. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r polisi blaenorol o ostwng nifer y diffoddwyr tân a'r swyddogion yn y llu er mwyn cael yr arbedion angenrheidiol drwy gyfraddau ymadael naturiol ac ymddeoliadau. Ond, gan nad yw'r Awdurdod wedi recriwtio ers nifer o flynyddoedd mae'r sefyllfa wedi cyrraedd pwynt critigol lle mae perygl na fydd digon o staff yn y dyfodol agos i ddarparu gofal tân angenrheidiol.

8 Mae'r tanwariant ar gyllideb y Prif Swyddogion yn ymwneud â'r swydd wag ar gyfer Prif Swyddog Tân Cynorthwyol.

9 Mae'r cynnydd yn nifer y recriwtiaid newydd wedi golygu y bu'n rhaid darparu mwy o hyfforddiant na'r hyn a amcangyfrifwyd pan osodwyd y gyllideb. Amcangyfrifir y bydd £22k o orwariant yn y gyllideb hyfforddiant.

10 Mae'r gorwariant ar gyllideb y Crefftwyr Peirianneg oherwydd cynnydd yn y llu, felly mae gan y Gwasanaeth adnoddau ychwanegol i wneud mwy o waith yn fewnol ar gynnal a chadw cerbydau. Adlewyrchir hyn yn y tan-wariannau o fewn cyllidebau Atgyweirio a Chynnal a Chadw Trafnidiaeth.

**Safleoedd**

11 Yn gyffredinol, bydd mymryn o orwariant, sef £4k, ar gyllideb y safleoedd. Nid oes angen adrodd ynghylch unrhyw amrywiannau sylweddol ar hyn o bryd yn y flwyddyn ariannol.

**Trafnidiaeth**

12 Yn gyffredinol, amcangyfrifir bod tanwariant o £185k yn y gyllideb Trafnidiaeth. Mae'r arbedion yn y gyllideb Atgyweirio a Chynnal a Chadw oherwydd gwaith ychwanegol a wnaed yn fewnol ac arbedion effeithlonrwydd a gafwyd dros nifer o gontractau. Yn ôl yr arwyddion presennol bydd y costau tanwydd yn is na'r gyllideb wreiddiol oherwydd y lefelau gweithgarwch presennol a'r gostyngiad yn y prisiau tanwydd.

**Cyflenwadau**

13 Mae'r Awdurdod wedi prynu gwisgoedd newydd dan y Fframwaith Caffael Gwisgoedd Cymru Gyfan, ac felly mae rhai gwisgoedd wedi cael eu prynu o flaen llaw er mwyn sicrhau arbedion wrth gaffael. Arweiniodd hyn at amcangyfrif o £24k o danwariant.

14 Amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd gorwariant ar gostau Cyfrifiaduron. Mae'r rhan fwyaf o'r gorwariant oherwydd y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r contract cenedlaethol newydd ar gyfer cysylltiadau radio. Bydd yr aelodau'n ymwybodol o'r prosiect a'r risgiau sy'n gysylltiedig. Neilltuwyd £300k y llynedd i ymorol am beth o gostau ychwanegol y trosglwyddo, ond ar yr adeg hon o'r flwyddyn gellir ariannu'r costau ychwanegol o'r gyllideb refeniw.

15 Bydd gorwariant ar Dreuliau Cynadleddau a Chynhaliaeth, a hynny yn bennaf oherwydd y ffordd o gyfrifyddu Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl fel cyfrif masnachu. Bydd unrhyw wariant sy'n uwch na'r incwm yn cael ei roi ar y cyfrif refeniw. Eleni, amcangyfrifir y bydd hyn yn £10k. Bu cynnydd hefyd yn yr hawl i gynhaliaeth oherwydd y pellteroedd ychwanegol a deithiwyd a'r oriau a weithiwyd gan ddiffoddwyr tân yn darparu gofal mewn gorsafoedd gwledig. Disgwylir y bydd £10k o orwariant yn y gyllideb cynhaliaeth.

16 Bydd y gwariant ar brosiectau arbennig fel y 'Cyd-Grŵp Gwasanaethau Brys/Pwyllgor Materion Cenedlaethol yn llai na'r gyllideb oherwydd bod y lefelau gweithgarwch yn llai na'r flwyddyn flaenorol.

### Asiantaeth

17 Mae'r gost i'r Awdurdod am lanhau adeiladau wedi cynyddu'n sylweddol gan fod y contract glanhau wedi cael ei osod i lanhau'r holl orsafoedd. O'r blaen, roedd y gwaith glanhau ar rai gorsafoedd y system RDS wedi cael ei wneud gan ddiffoddwyr tân y system RDS a oedd yn cael lwfans i gyflawni'r dyletswyddau. Bydd y costau ychwanegol yn cael eu talu drwy arbedion ar y lwfansau glanhau.

## Cyllido Cyfalaf

18 Amcangyfrifir bod y costau dyledion a gysylltir â'r rhaglen gyfalaf yn llai na'r gyllideb wreiddiol oherwydd y cyfraddau llog isel a'r oedi angenrheidiol ar brosiect Tân ac Ambiwlans Wrecsam a'r ail-amserlennu sydd yn yr arfaeth ar brosiectau Tywyn a Nefyn. Hefyd, sicrhawyd y costau llog isel drwy 'fenthyca'n fewnol', sef defnyddiwyd y cronfeydd wrth gefn a'r balansau i ariannu'r rhaglen yn hytrach na threfnu benthyciadau newydd.

## Incwm

19 Ar y cyfan, amcangyfrifir y bydd yr incwm fymryn yn uwch na'r gyllideb wreiddiol. Bu gostyngiad derbyniol yn nifer y galwadau am wasanaethau arbennig ond mae hyn wedi arwain at godi llai o incwm na'r disgwyl pan osodwyd y gyllideb. Mae'r incwm o'r Ffioedd Cyfalaf wedi gostwng yn unol â'r gwariant a fu ar y rhaglen gyfalaf ac ail-gysoni'r gyllideb gyfalaf.

## Tanwariant

20 Y tanwariant a amcangyfrif yw £25k, ac ar yr adeg hon yn y flwyddyn ariannol mae'n bosibl y bydd y sefyllfa hon yn newid. Roedd y gyllideb wreiddiol yn cynnwys cyfraniad o £223k o'r cronfeydd wrth gefn. Oherwydd y sefyllfa gyffredinol ni fydd gofyn ddefnyddio'r gronfa honno ar hyn o bryd.

## Argymhelliad

21 Bod yr Aelodau'n nodi'r tanwariant bychan.